# Adroddiad Blynyddol Ymddiriedolaeth GIG Felindre gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru 2014-15

Rheolwr Perthynas: Sarah Jones
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Ffôn: 0300 062 8383

## Diben

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r brif arolygiaeth ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru. Ei diben yw darparu sicrwydd annibynnol a gwrthrychol ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau gofal iechyd, gan wneud argymhellion i sefydliadau gofal iechyd er mwyn hyrwyddo gwelliannau.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi cael ei baratoi gan AGIC fel crynodeb o'r gweithgareddau mae AGIC wedi'u cynnal rhwng 1 Ebrill 2014 a 31 Fawrth 2015 yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

Y canlyniadau rydym yn ceisio dylanwadu arnynt o ganlyniad i'n gweithgarwch yn yr ymddiriedaeth hon ac ym myrddau iechyd/ymddiriedolaethau eraill yw bod:

- Profiadau dinasyddion yn cael eu gwella
- Dinasyddion yn gallu cael mynediad at wybodaeth glir ac amserol ynglŷn ag ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd gwasanaethau iechyd yng Nghymru.
- Dinasyddion yn hyderus bod arolygu a rheoleiddio ar gyfer y sector iechyd yng Nghymru yn ddigonol, yn gymesur, yn broffesiynol, yn gydlynol ac yn ychwanegu gwerth

## Trosolwg

Nid yw AGIC wedi cynnal unrhyw ymweliadau ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn 2014-15, ar ôl arolygiad o'r Uned Cymorth Gweithredol yng Nghanolfan Ganser Felindre ar 6 Chwefror 2014.

## Themâu Allweddol ac Ymarfer Nodedig

Ni chynhaliodd AGIC unrhyw arolygiadau yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn 2014-15.

## Llywodraethu ac Atebolrwydd

Gweledigaeth Ymddiriedolaeth GIG Felindre yw y bydd yn cael ei chydnabod yn lleol, yn genedlaethol ac yn rhyngwladol fel sefydliad o ragoriaeth ar gyfer gofal cleifion a rhoddwyr, ac addysg ac ymchwil.

Roedd yr hunanasesiad a gynhaliwyd gan Ymddiriedolaeth GIG Felindre ar gyfer 2013-14, ac a gyflwynwyd i AGIC yn nodi'r canlynol:

O dan y thema *Gosod y Cyfeirad*, roedd y sefydliad yn credu ei fod yn dangos aeddfedrwydd ar lefel 5 – ac yn gallu dangos arfer da ac arloesi parhaus sy'n cael eu rhannu trwy'r sefydliad/busnes er mwyn i bobl eraill dysgu ganddynt. Nodwyd nifer o gamau gwella gan gynnwys ymchwilio i feincnodi cyfleodd a manteisio i'r eithaf ar rannu arferion arloesol ar draws y sefydliad â phartneriaid allanol a sefydliadau/cyrff eraill. .

O dan y thema *Galluogi Cyflenwi*, roedd y sefydliad yn credu ei fod wedi dangos aeddfedrwydd ar lefel 4 – mae gan yr ymddiriedolaeth gynlluniau a phrosesau wedi'u datblygu'n dda, ac yn gallu dangos gwelliant cynaliadwy trwy'r holl sefydliad/busnes. Nodwyd nifer o gamau gwella gan gynnwys parhau i weithio tuag at wella'r amgylchedd a'r ystâd o fewn rhwystrau corfforol ac ariannol, a datblygu cynlluniau ar gyfer y gweithlu a chyflwyno Cofnod Staff Electronig.

O dan y thema *Cyflenwi Canlyniadau*, *Cyflawni Rhagoriaeth*, roedd y sefydliad yn credu ei fod wedi dangos aeddfedrwydd ar lefel 4 – mae gan yr ymddiriedolaeth gynlluniau a phrosesau wedi'u datblygu'n dda ac yn gallu dangos gwelliant cynaliadwy trwy'r holl sefydliad/busnes. Nodwyd nifer o gamau gwella gan gynnwys mapio'r broses ddysgu yn yr ymddiriedolaeth (bydd llwyddiant yn cael ei fonitro trwy fonitro pryderon, perfformiad a chydymffurfiad ag archwiliadau) a rhoi sylw i rannu gwybodaeth rhwng staff rheoli perfformiad gweithredol a gwybodaeth ar gyfer y Bwrdd (bydd llwyddiant yn cael ei fonitro trwy hunanasesiad gan y Bwrdd a'r Pwyllgor).

Yn ogystal, mae casgliadau gan Adroddiad Archwiliol Blynyddol Swyddfa Archwilio Cymru 2014 yn nodi bod rheolaeth ariannol ddiogel yn galluogi'r ymddiriedolaeth i fod mewn sefyllfa ariannol gytbwys ar ddiwedd 2013-14, ond mae rhai heriau ariannol penodol yng Nghanolfan Ganser Felindre sydd angen eu hystyried o hyd. Mae hyn yn cyd-fynd â'r hunanasesiad lle y nododd Felindre ei sefydlogrwydd ariannol parhaus ynghyd â'r angen i wella'r amgylchedd a'r ystâd o fewn rhwystrau corfforol ac ariannol. Er bod trefniadau llywodraethu'n effeithiol, a bod Cynllun Integredig Tymor Canolig y cytunwyd arno, nododd Swyddfa Archwilio Cymru bod cyfleoedd i wella manylion a chydlynu'r wybodaeth a roddir i bwyllgorau er mwyn cefnogi craffu, herio a goruchwylio gwell. Mae hyn yn cyd-fynd â'r hunanasesiad lle y soniodd Felindre am lywodraethu'n dda trwy ddatblygu cynllun tair blynedd, ond ar

yr un pryd nodi'r angen i gryfhau'r broses o rannu gwybodaeth rhwng rheoli perfformiad gweithredol a gwybodaeth ar gyfer y Bwrdd.

## Ymgysylltiad

Yn ystod 2014-15, cyfarfu Prif Weithredwr AGIC, Kate Chamberlain – gyda'r Rheolwr Perthynas, Sarah Jones – â Phrif Weithredwr dros dro Ymddiriedolaeth GIG Felindre, Steve Ham a'r Cadeirydd, yr Athro Rosmary Kennedy ar 18 Rhagfyr 2014.

Hoffai AGIC ddiolch i staff Ymddiriedolaeth GIG Felindre am eu cefnogaeth a'u cyfraniad yn ystod 2014-15, wrth i AGIC ymchwilio i'r posibilrwydd o symud y trefniadau llety ar gyfer yr Awdurdod Goruchwylio Lleol ar gyfer Bydwragedd o AGIC i Ymddiriedolaeth GIG Felindre.

## Adolygiadau ac Ymchwiliadau Arbennig

Mae'r adolygiad gan gymheiriaid o wasanaethau canser a gwasanaethau gofal lliniarol yng Nghymru yn rhaglen sicrhau ansawdd sy'n asesu ansawdd y gwasanaeth a ddarperir gan dimau amlddisgyblaethol, Byrddau Iechyd a gwasanaethau gofal lliniarol yng Nghymru. Mae asesiadau'n cael eu cynnal gan ddefnyddio fframwaith o safonau gofal iechyd penodol a chanllawiau cenedlaethol.

Maent yn cyfuno hunanasesiad gydag adolygiad arbenigol annibynnol er mwyn sicrhau nid yn unig bod strwythurau a phrosesau ar waith i gyflenwi gofal o ansawdd uchel, ond hefyd bod timau clinigol yn cydweithio'n effeithiol a bod ethos o wella'r gwasanaeth yn bodoli sy'n seiliedig ar ganlyniadau triniaethau a phrofiadau cleifion.

Mae'r rhaglen adolygu gan gymheiriaid yn gydweithrediad rhwng AGIC, Rhwydwaith Canser De Cymru, Rhwydwaith Canser Gogledd Cymru a Bwrdd Gweithredu Gofal Lliniarol. Mae AGIC yn cefnogi'r broses o adolygu gan gymheiriaid trwy:

- Helpu i gynllunio a threfnu pob adolygiad
- Ysgrifennu'n ffurfiol at fyrddau iechyd ar ddechrau pob adolygiad
- Gwneud trefniadau er mwyn i fyrddau iechyd gyflwyno eu dogfennau hunanasesu'n electronig
- Arsylwi ar y broses adolygu gan gymheiriaid er mwyn sicrhau ei bod yn deg ac yn ddiduedd a bod canlyniad yr adolygiad yn cael ei gyfathrebu'n agored ac yn dryloyw

Mae AGIG yn cadw'r adroddiadau er mwyn sicrhau bod y broses o adrodd am gasgliadau'n agored ac yn dryloyw ac mae fersiwn cyhoeddus o adroddiadau a chynlluniau gweithredu yn cael ei gyhoeddi ar ein gwefan.

Yn 2014-15 roedd adolygiad gan gymheiriaid o wasanaethau Canser y Pen a'r Gwddf ar gyfer Felindre, a gynhaliwyd ar 25 Medi 2014 yn Ysbyty Brenhinol Gwent, Casnewydd. Nid oedd y canlyniadau wedi'u cyhoeddi pan luniwyd yr adroddiad hwn.

## Camau Dilynol a Sicrwydd ar Unwaith

Ar ôl cyhoeddi'r adroddiad Ymddiried mewn Gofal, gofynnodd y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol am gyfres o 'hapwiriadau' dirybudd mewn ysbytai yng Nghymru yn ystod mis Mehefin a mis Gorffennaf 2014, wedi'u rheoli gan Lywodraeth Cymru. Defnyddiwyd Canolfan Gofal Canser Felindre ar gyfer rhaglen beilota'r hapwiriadau.

Er na chynhaliodd AGIC unrhyw arolygiadau yn Ymddiriedolaeth GIG Felindre yn 2014-15, gwnaethom weithio'n agos gyda thîm hapwirio Llywodraeth Cymru mewn perthynas â rhai camau dilynol yn sgil ein harolygiad o Felindre ym mis Chwefror 2014.

Gwnaeth Llywodraeth Cymru nodi un mater roedd AGIC hefyd wedi'i weld ar un o'r wardiau, ynglŷn â meddyginiaeth a welwyd wedi'i storio mewn ystafell driniaeth nad oedd dan glo – hefyd nad oedd yr oergell ar gyfer storio meddyginiaeth o dan glo. Trwy weithio gyda'n gilydd, trafodwyd hyn ag Ymddiriedolaeth GIG Felindre a datryswyd y mater.

## Gweithgarwch Arolygu

| **Math o arolygiad** | **Lleoliad** | **Dyddiad** |
|---|---|---|
| Ymweliadau adolygu gan gymheiriaid | Gofal Canser Felindre – Gwasanaethau Canser y Pen a'r Gwddf (Ysbyty Brenhinol Gwent) | 25/09/14 |

Dyddiad cynhyrchu: Gorffennaf 2015